| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 19 Mehefin, 2008 |
| **TEITL** | Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir |
| **PWRPAS** | I gadarnhau'r camau nesaf er mwyn Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr Argymhelliad |
| **AWDUR** | Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Strategol Datblygu<br>Harry Thomas, Prif Weithredwr |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a gynhaliwyd ar y 5 Mehefin, 2008 rhoddwyd sylw i gynlluniau'r Cyngor i ad-drefnu ysgolion cynradd y Sir.

1.2. Fe welwch gopi o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu hwn yn Atodiad 1.

## 2. PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR CRAFFU

2.1. Cyflwynir isod benderfyniad y Pwyllgor Craffu i sylw'r Cyngor:

**Penderfynwyd:**

(a) Cydnabod na fu i'r ymgynghoriad blaenorol dderbyn cefnogaeth ar draws y Sir a chymeradwyo sefydlu Gweithgor Gwella Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir o'r newydd i greu trefniadaeth ysgolion gynaladwy a theg ar gyfer y dyfodol.

(b) Gofyn i'r Gweithgor Gwella Ad-drefnu Ysgolion Cynradd ymgymryd â'r tasgau isod gan adrodd ar gynnydd y meysydd gwaith i gyfarfod o'r Pwyllgor Craffu hwn ym mis Tachwedd 2008:

- (i) ystyried trefniant newydd er sicrhau cydweithio ffurfiol rhwng ysgolion;
- (ii) i baratoi rhestr o ysgolion i'w cau, yn unol â meini prawf clir a chadarn;
- (iii) cyflwyno cynigion ar gyfer datblygu ysgolion ardal mewn ambell dalgylch;
- (iv) ymdrin ag unrhyw fater arall yn nhyb y Gweithgor sy'n berthnasol i greu cyfundrefn gynaladwy.

(c) Enwebu 5 aelod (un cynrychiolydd o bob plaid wleidyddol) ynghyd â Chadeirydd y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc i wasanaethu ar y Gweithgor:

Y Cynghorwyr:

Siân Gwenllian

Seimon Glyn

Brian Jones

June Marshall

Dewi Owen

(ch) Cefnogi'r bwriad i gynnal cyfnod o ymgynghori statudol ar y bwriad o gau Ysgol Rhydyclafdy ac Ysgol Croesor a gofyn i'r Pwyllgorau Ardal perthnasol ystyried defnydd y ddau adeilad i'r dyfodol.

## 3. ARGYMHELLIAD

3.1. Argymhellwn fod y Cyngor yn cymeradwyo penderfyniad y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yn unol â'r hyn a nodir uchod.